Hawdd ei Ddeall

Bron Brawf Cymru Breast Test Wales

# Rhesymau pam mae angen mwy o brofion arnoch chi



F3: 06/26

GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Sganiwch yma

www.icc.gig.cymru/sginio-bron

# Sut i ddefnyddio'r daflen yma



Efallai eich bod angen help a chymorth i ddarllen a deall y daflen yma.

Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.

Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n rheoli rhaglenni **sgrinio** GIG Cymru

> Mae **sgrinio** yn golygu profi pobl am rai mathau o ganser a phroblemau iechyd eraill. Os ydyn ni'n dod o hyd i'r rhain yn gynnar, mae'n haws eu trin.

Bydd geiriau anodd yn cael eu hesbonio mewn blwch glas.




Mae'r daflen yma ar gael yn Saesneg.




Mae lliw gwahanol ar dop pob tudalen.

Mae hyn yn eich helpu chi i ddod o hyd i beth rydych yn chwilio amdano.

# Cynnwys: Beth sydd yn y daflen yma



| | |
|---|---|
| Rhesymau pam mae angen mwy o brofion arnoch chi | 4 |
| Mynd i gael mwy o brofion | 5 |
| Y profion | 6 |
| Canlyniadau eich prawf sgrinio'r fron | 9 |
| Ble alla i gael mwy o wybodaeth? | 11 |

# Rhesymau pam mae angen mwy o brofion arnoch chi



Mae Bron Brawf Cymru wedi gofyn i chi ddod yn ôl i gael mwy o brofion.

Mae hyn wedi digwydd am ein bod ni wedi gweld newidiadau ar y prawf pelydr-X o'ch bron.



Dydy'r rhan fwyaf o newidiadau yn golygu bod gennych ganser y fron.  Bydd mwy o brofion yn helpu i weld beth yw'r newidiadau.




Bydd eich llythyr yn dweud wrthoch chi ble i fynd ar gyfer eich apwyntiad a phryd.



Efallai byddwch yn treulio bore neu brynhawn yn y ganolfan sgrinio.

# Mynd i gael mwy o brofion



Cysylltwch â ni cyn eich apwyntiad os oes gennych anabledd neu os oes angen cymorth arnoch chi.



Gall aelod o'r teulu, ffrind, gofalwr neu weithiwr cymorth ddod gyda chi i'r apwyntiad.



Dylech wisgo dillad sy'n hawdd eu tynnu.

Bydd angen i chi dynnu eich top a'ch bra.



Byddwn yn dweud wrthoch ba brofion sydd eu hangen arnoch pan fyddwch yn dod i'ch apwyntiad.

# Y profion



Bydd lluniau pelydrau-X o'r fron yn cael eu tynnu.



Byddwn ni'n edrych am lympiau neu newidiadau yn eich bronnau.



**Sgan uwchsain -** Byddwn ni'n rhoi ychydig o gel ar eich bron ac yn symud y sganiwr dros y gel. Bydd hyn yn rhoi llun o'r tu mewn i'ch bron.

Mae **sgan uwchsain** yn tynnu llun o'r tu mewn i'ch bron.

# Mwy am y profion



Byddwch chi'n cael pigiad **anesthetig lleol**.

Mae **anesthetig lleol** yn feddyginiaeth sy'n helpu i stopio poen. Byddwch yn cael pigiad yn eich bron.



Byddwn yn cymryd **biopsi** o'ch bron neu eich cesail. Bydd nodwydd arbennig yn cael ei defnyddio.

Mae **biopsi** yn golygu cymryd darn bach o feinwe (tissue) o dan eich croen.



Mae'n ddiogel i'r rhan fwyaf o bobl gael anesthetig lleol a biopsi.

Bydd y meddyg yn siarad â chi am gael y profion hyn.

# Mwy am y profion



Weithiau mae pobl yn gallu cael problemau ar ôl cael biopsi. Efallai byddwch chi:

- angen biopsi arall;
- yn cael haint; neu'n
- cael eich cleisio.



Os ydych chi wedi cael biopsi ac yn teimlo'n sâl, neu os yw eich bron:

- yn boenus;
- yn boeth;
- yn goch; neu
- wedi chwyddo.

Cysylltwch â'ch meddyg neu ffoniwch 111.

# Canlyniadau eich prawf sgrinio'r fron



Efallai byddwch yn cael eich canlyniadau cyn i chi adael y ganolfan sgrinio.




Os byddwch chi'n cael biopsi, bydd y canlyniadau yn barod o fewn 2 wythnos.

Bydd apwyntiad yn cael ei drefnu i chi cyn i chi adael.



Bydd gan rai pobl ganser y fron.


Bydd meddyg yn siarad â chi am y driniaeth yr ydych chi'n gallu ei chael.

Bydd nyrs gofal y fron yn eich cefnogi.



Mae dod o hyd i ganser yn gynnar yn rhoi'r cyfle gorau i chi wella.

# Mwy am ganlyniadau eich prawf o'r fron




Dydy prawf sgrinio ddim bob amser yn dod o hyd i ganser y fron.

Mae'n bosibl o hyd i gael canser y fron hyd yn oed os ydych chi wedi cael y prawf sgrino.



Dydy hi ddim yn golygu bod gennych chi ganser y fron os byddwch chi'n cael mwy o brofion.





Siaradwch â'ch meddyg os byddwch chi'n gweld neu'n teimlo newid yn eich bronnau.

Mae hyn yn bwysig hyd yn oed os ydych chi wedi cael prawf sgrinio.

# Ble alla i gael mwy o wybodaeth?



Gallwch chi ffonio neu anfon e-bost aton ni:

**De-ddwyrain Cymru**

Ffôn: 029 2039 7222

Ebost: sgrinio-bron-de@wales.nhs.uk

**Gorllewin Cymru**

Ffôn: 01792 459988


Ebost: sgrinio-bron-gorllewin@wales.nhs.uk

**Gogledd Cymru**

Ffôn: 01492 860888

Ebost: sgrinio-bron-gogledd@wales.nhs.uk






Gallwch chi gysylltu â ni yn Gymraeg neu Saesneg.

Bydd yn cymryd yr un faint o amser i'ch ateb, pa bynnag iaith rydych yn ei dewis.



Gallwch chi ymweld â'n gwefan:
www.icc.gig.cymru/sgrinio-bron

BREAST CANCER NOW
The research & support charity

Mae gwybodaeth a chymorth am ganser y fron ar gael o:
www.breastcancernow.org (Saenseng yn unig)



Delweddau trwy garedigrwydd: Adobe, Photosymbols a Bron Brawf Cymru